

## CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Bell a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Susan Lloyd-Selby (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Howard Hamilton, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

### 428 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol”.

### 429 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Anthony Ernest, Robert Fisher a Sandra Perkes.

### 430 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 431 ADRODDIAD HUNANASESU BLYNYDDOL DRAFFT TERFYNOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 (CYF) –

Nododd yr Arweinydd fod yr Hunanasesu Blynyddol yn ofyniad newydd i Awdurdodau Lleol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor adolygu perfformiad yn gyson, ymgynghori arno ac yna cyhoeddi adroddiad yn nodi casgliadau ei hunan-asesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Roedd yn rhan o fframwaith cyflenwi a monitro'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) a oedd wedi'i leoli rhwng y Cynllun Corfforaethol pum mlynedd (2020 i 2025) a Chynlluniau Gwasanaeth y

Gyfarwyddiaeth. Cyfeiriodd y CCB ar gyfer 2021/22 at amrywiaeth o ddogfennau a ystyriwyd megis Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, Asesiad o Effaith Gymunedol COVID-19, Asesiad o Effaith Economaidd COVID-19, Strategaeth Adfer Coronafeirws, canfyddiadau gwaith rheoleiddwyr a safbwyntiau trigolion. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y CCB dros gyfnod o 8 wythnos a'i ymestyn oherwydd cyfnod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a pharhaodd y broses o gymeradwyo drwy Bwyllgorau Craffu, y Cabinet ac yn olaf y Cyngor ym mis Ebrill 2021. Ers hynny, nododd fod y CCB wedi cael ei fonitro bob chwarter, a'r diwethaf oedd Gorffennaf 2022.

Nododd yr Arweinydd hefyd y byddai'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn adroddiad Hunanasesiad Blyneddol Bro Morgannwg yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu CCB y Cyngor ar gyfer 2023/24 ac i ymgysylltu â'r holl Aelodau trwy Bwyllgorau perthnasol y Cyngor hyd yma, a oedd yn cynnwys Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar ddau achlysur gwahanol, fersiynau drafft a therfynol, a oedd wedi argymhell newidiadau i'r Cynllun ac wedi hynny roedd y rhain wedi'u cynnwys yn y fersiwn derfynol.

Teimlai'r Arweinydd fod yr adroddiad, wrth fantoli, wedi canfod bod y Cyngor wedi cyflawni yn erbyn ei CCB, gan gydnabod ei fod yn dal i fod yn waith ar y gweill ac o ystyried mai dyma'r tro cyntaf iddo gael ei wneud fel hyn.

Yna trodd sylw'r Arweinydd at yr ymatebion i'r ymgynghoriad i'r Cynllun drafft oedd yn cymharu'n ffafriol ag ymgynghoriadau eraill a gynhaliwyd gan y Cyngor, gan gyfeirio at amrywiol enghreifftiau.

Wrth gloi, cyfeiriodd yr Arweinydd at benderfyniad y Cabinet (3) o 3 Tachwedd, 2022 a chynhigiodd fod Adroddiad Hunanasesiad Blyneddol Cyngor Bro Morgannwg 2021/22 drafft terfynol fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 3 Tachwedd, 2022, a oedd yn cynnwys diwygiadau i'r "Gwella ein Seilwaith Economaidd" a oedd eisoes wedi'i gynnwys yn y ddogfen, yn cael ei gymeradwyo.

Cafodd hyn ei eilio'n briodol gan y Dirprwy Arweinydd.

Diolchodd y Cynghorydd Dr. Johnson i'r staff oedd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad. Gan gyfeirio at ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru (LIC) yr oedd o'r farn mai Llywodraeth Leol oedd yr un a graffwyd fwyaf arno o'r cyrff cyhoeddus yng Nghymru eisoes, a chyfeiriodd at nifer o gyrff rheoleiddiol a wnaeth hynny gan sôn am rolau'r Cabinet / Craffu o fewn y Cyngor. Roedd y mater gerbron y Cyngor ac roedd yn iawn craffu ar yr adroddiad ymhellach. Nid oedd yn glir pwy oedd darlennydd bwriadedig yr Adroddiad Blyneddol, ar wahân i LIC. Nid oedd yn teimlo iddo gael ei ysgrifennu ar gyfer y cyhoedd. Fel un o adroddiadau pwysicaf y flwyddyn byddai wedi disgwyl i'r adroddiad gynnwys crynodeb gweithredol byr er mwyn i'r Cyngor allu egluro'r hyn yr oedd yn ei derfynu. Ar y cyfan nid oedd yn ystyried y ddogfen yn hawdd i'w darllen. Gan gyfeirio at sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mai cymharol ychydig o ymatebion oedd gan y cyhoedd a staff y Cyngor i'r ymgynghoriad, nid oedd o reidrwydd yn poeni am y niferoedd, ond yng nghyd-destun pwysigrwydd yr adroddiad i'r Cyngor roedd angen ei esbonio a'i ddatrys, gan fod y rhain yn gwestiynau methodoleg bwysig. Holodd os mai'r arolwg oedd y dull gorau o gael data digon cyfoethog y gellid tynnu casgliadau ystyrion ohono a chwestiynodd y

nifer sampl fach o ymatebwyr o ran dod i gasgliadau ystyrllon. Roedd o'r farn os oedd niferoedd mor fach yn dderbyniol dylai fod esboniad pam, yn enwedig yr ymateb llai na chadarnhaol ar ddarparu gwasanaethau gwirioneddol y Cyngor, ac amlygodd nifer o faterion penodol. Er hynny, roedd y Cyngor wedi graddio ei hun fel dal, ond nid oedd hyn yn cyd-fynd â barn y cyhoedd a gymerodd ran. Roedd o'r farn bod angen mwy o fyfyrion ar hyn a lleihau'r bwlch hygrededd, yn enwedig ar adeg pan oedd darparu gwasanaethau yn mynd i fod yn fwy heriol fyth o ganlyniad i doriadau San Steffan.

Nododd y byddai ei Grŵp yn gwrthod yr adroddiad gan ddweud y dylai gael ei ail-lunio a'i ailgyflwyno i'r Cyngor gan ei fod yn credu y gallai gael ei wella. Pe bai'n cael ei gymeradwyo heno roedd yn gobeithio y byddai ei sylwadau yn cael eu hanfon gyda'r adroddiad i LIC yn y gobaith y byddai eu swyddogion yn ystyried y rhain wrth symud ymlaen.

Mynegodd y Cynghorydd Perry, oedd yn cytuno â sylwadau'r Cynghorydd Dr. Johnson, bryder ynghylch hygyrchedd y ddogfen gan fod nifer o wallau wedi'u cynnwys ynddi a'i gwnaeth yn llai hygyrch ac anodd ei ddarllen i'r rhai sy'n defnyddio darlennydd sgrin. Roedd hefyd yn siomedig gyda'r cynnydd tuag at gyflwyno Prosiect Sero. Dwedodd y byddai'n pleidleisio yn erbyn cymeradwyo'r adroddiad.

Fe wnaeth y Cynghorydd Carroll, gan fynegi rhywfaint o gydymdeimlad â'r Weinyddiaeth gan mai dyma'r tro cyntaf i adroddiad o'r natur yma gael ei ddwyn gerbron y Cyngor, rannu rhai o'r pryderon a godwyd gan Aelodau eraill. Roedd o'r farn bod problemau gyda fformat yr adroddiad a gallai fod wedi bod yn fwy hygyrch yn cyfeirio at y sylwadau a wnaed gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor. Roedd o'r farn ei fod yn awgrym synhwyrol i ddod â'r adroddiad hwn yn ôl er mwyn caniatáu iddo gael ei fireinio a'i wneud yn fwy hygyrch a chefnogodd farn y Cynghorydd Dr Johnson.

Roedd y Cynghorydd Mahoney o'r farn nad oedd y Cyngor yn gallu hunan-asesu ei hun. Dylai unrhyw asesiad o'r Cyngor gael ei wneud gan berson annibynnol.

Wedi cael ei roddi i bleidlais, yr oedd

**PENDERFYNWYD** – BOD Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft Terfynol Cyngor Bro Morgannwg 2021/22 fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 3 Tachwedd, 2022 (gweler Cofnod Rhif C117), a oedd yn cynnwys y diwygiadau i'r adran o dan y pennawd "Gwella ein Seilwaith Economaidd" sy'n wedi'i ymgorffori yn y ddogfen, ei gymeradwyo.

### Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.